Holi ac Ateb: Myfyrwyr sy'n Cymryd Blwyddyn i Ffwrdd

1. **C** Pryd mae'n rhaid i mi wneud cais am fynediad gohiriedig er mwyn cael f'ystyried yn fyfyriwr sy'n cymryd blwyddyn i ffwrdd sy'n dechrau cwrs ym mlwyddyn academaidd 2010/11?

   A Er mwyn i chi gael eich ystyried yn fyfyriwr sy'n cymryd blwyddyn i ffwrdd (ac felly'n gymwys am y grant ffioedd dysgu fel myfyriwr sy'n parhau o dan y rheoliadau cymorth i fyfyrwyr ar gyfer blwyddyn academaidd 2010/11), rhaid i chi fod wedi gwneud cais ac wedi cael eich cynnig gan eich prifysgol erbyn 1 Awst 2009.

2. **C** Beth os byddaf eisiau aros a gwneud cais am fynediad gohiriedig ar ôl i mi gael fy nghanlyniadau Safon Uwch?

   A Rhaid eich bod chi wedi gwneud cais i'ch sefydliad **ac** wedi cael eich cynnig o le gohiriedig erbyn 1 Awst 2009. Os arhoswch hyd nes i chi gael eich canlyniadau Safon Uwch i wneud cais, ni fyddwch wedi cael eich cynnig am le gohiriedig erbyn y dyddiad hwn ac felly byddwch yn cael eich ystyried yn fyfyriwr "newydd" (heb fod yn gymwys am grant ffioedd dysgu) os gohiriwch tan 2010/11.

3. **C** A fydd disgwyl i mi fod ag unrhyw beth i "brofi" fy mod i wedi cymryd blwyddyn i ffwrdd ac fy mod i'n gymwys am y grant ffioedd dysgu?

   A Fel rheol, gofynnir i chi ddarparu'r llythyr perthnasol gan eich sefydliad neu allbrint o'r cynnig ar y sgrin Track gan UCAS yn cadarnhau eich bod chi wedi gwneud cais ac wedi derbyn cynnig am le gohiriedig erbyn 1 Awst 2009.

4. **C** Beth sy'n digwydd os byddaf yn newid fy meddwl am ba gwrs yr hoffwn i ei wneud yn ystod fy mlwyddyn i ffwrdd? A fyddaf yn parhau i fod yn gymwys fel myfyriwr sy'n cymryd blwyddyn i ffwrdd?

   A Bydd hyn yn dibynnu ar a yw cynnwys y cwrs yr hoffech newid iddo fwy neu lai'r un fath â'r cwrs y gwnaethoch gais amdano'n wreiddiol. Os bydd eich sefydliad yn ystyried bod cynnwys y cwrs rydych am newid iddo'r un fath â'r un y gwnaethoch gais amdano'n wreiddiol, naill ai'n gyfan neu'n rhannol, byddwch yn parhau i fod yn gymwys. Os nad ydynt yn ystyried iddo fod felly, ni fyddwch bellach yn gymwys fel myfyriwr sy'n cymryd blwyddyn i ffwrdd.

5. **C** Beth sy'n digwydd os byddaf yn newid fy meddwl am y sefydliad yr hoffwn fynd iddo yn ystod fy mlwyddyn i ffwrdd?

   A Mae angen i chi fod wedi cael cynnig gan eich sefydliad erbyn 1 Awst 2009 i gymhwyso fel myfyriwr sy'n cymryd blwyddyn i ffwrdd. Wedyn, byddai disgwyl i chi gymryd eich lle yn y sefydliad hwnnw, ac eithrio lle tynnir y cwrs yn ôl a bod rhaid i chi fynd i sefydliad gwahanol i wneud yr un cwrs (neu un tebyg). Os byddwch ond yn newid eich meddwl am ble yr hoffech astudio, ni fyddwch yn gymwys fel myfyriwr sy'n cymryd blwyddyn i ffwrdd a byddwch yn cael eich ystyried yn fyfyriwr "newydd" os gohiriwch fynediad tan 2010/11.

6. **C** Beth sy'n digwydd os byddaf yn gwneud fy ngradd sylfaen yn gyntaf?

A Os byddwch yn dilyn gradd sylfaen ac yn mynd yn syth i radd [anrhydedd] amser llawn (cwrs "ar ddiwedd") ym Mlwyddyn Academaidd 2010/11, byddwch yn cael eich ystyried yn fyfyriwr sy'n parhau ac felly'n gymwys am y grant ffioedd dysgu os ydych chi'n astudio mewn sefydliad addysg uwch yng Nghymru.

7. **C** Beth sy'n digwydd os byddaf yn gwneud cais i ddechrau yn 2009, yn cael cynnig gan fy sefydliad ar gyfer y flwyddyn honno, ond yn penderfynu cymryd blwyddyn i ffwrdd?

   A Er mwyn cymhwyso fel myfyriwr sy'n cymryd blwyddyn i ffwrdd, rhaid eich bod chi wedi cael cynnig lle gohiriedig gan eich sefydliad erbyn 1 Awst 2009. Os byddwch yn gwneud cais yn wreiddiol i ddechrau ym mlwyddyn academaidd 2009/10, yn cael eich cynnig ar gyfer y flwyddyn honno, ac wedyn yn newid eich meddwl ynglŷn â phryd i ddechrau, mae angen i chi gysylltu â'ch sefydliad i weld a allant gynnig lle gohiriedig i chi ar gyfer blwyddyn academaidd 2010/11. Nid oes sicrwydd y gallant wneud hyn, neu y byddent yn gallu gwneud hynny erbyn y dyddiad cau ar 1 Awst 2009.

8. **C** Os caiff fy mynediad i brifysgol ei ohirio am flwyddyn – er enghraifft, os bydd fy sefydliad yn gofyn i mi wneud cwrs sylfaen mewn celf fel elfen hanfodol ar gyfer cwrs celf a dylunio – a fyddaf yn parhau i fod yn gymwys fel myfyriwr sy'n cymryd blwyddyn i ffwrdd?

   A Bydd myfyrwyr sydd wedi cael cynnig am le ar gyfer blwyddyn academaidd 2010/11 erbyn 1 Awst 2009 yn gymwys, hyd yn oed os bydd y sefydliad yn gofyn i chi ddilyn cwrs sylfaen mewn celf i ddechrau.

9. **C** Beth sy'n digwydd os byddaf yn apelio yn erbyn fy nghanlyniadau Safon Uwch ac na allaf fynd i'r brifysgol yn 2009/10 fel yr oeddwn wedi bwriadu?

   A Os byddwch yn apelio'n llwyddiannus yn erbyn eich canlyniadau Safon Uwch ar ôl i chi gael cynnig lle mewn prifysgol ar gyfer blwyddyn academaidd 2009/10 ac na allwch felly, gymryd eich lle yn 2009 fel yr oeddech wedi'i drefnu, byddwch yn yr un sefyllfa â myfyriwr cymwys sy'n cymryd blwyddyn i ffwrdd.

10. **C** Beth sy'n digwydd os byddaf yn cael lle mewn prifysgol yn 2009/10 trwy gliriad neu drwy "addasiad", ond byddaf wedyn yn penderfynu fy mod i am gymryd blwyddyn i ffwrdd a dechrau fy nghwrs yn 2010/11?

    A Er mwyn bod yn gymwys fel myfyriwr sy'n cymryd blwyddyn i ffwrdd, rhaid eich bod chi wedi cael cynnig lle gan eich prifysgol am fynediad gohiriedig yn 2010 erbyn 1 Awst 2009. Mae'r broses glirio/addasu yn digwydd o ganol i ddiwedd mis Awst, felly os penderfynwch ohirio lle mewn prifysgol ar ôl clirio/addasu, byddwch yn cael eich ystyried yn fyfyriwr "newydd" ar gyfer mynediad 2010/11. *Fel rheol, mae lleoedd a geir trwy'r broses glirio ar gyfer cyrsiau sy'n dechrau yn y flwyddyn honno ac ni ellir eu gohirio fel arfer.*

11. **C** Pa gymorth i fyfyrwyr byddaf yn ei gael yn 2010/11 os byddaf yn cael f'ystyried yn fyfyriwr blwyddyn i ffwrdd cymwys yn 2009/10?

A Bydd myfyrwyr sy'n cymryd blwyddyn i ffwrdd yn 2009/10 ac sy'n dechrau eu hastudiaethau yn 2010/11 yn cael eu hystyried yn fyfyrwyr sy'n parhau ac, yn dibynnu ar incwm y teulu, yn cael hawl i'r lefelau cymorth canlynol:

- Grant ffioedd dysgu (hyd at £1,940*) ar gyfer myfyrwyr sy'n byw yng Nghymru sy'n astudio yng Nghymru;
- Benthyciad ffioedd dysgu (hyd at £1,285* os ydych chi'n astudio yng Nghymru a hyd at £3,225* os ydych chi'n astudio rhywle arall;
- Grant Dysgu'r Cynulliad prawf modd (grant cynhaliaeth) o hyd at £2,906* (incwm cartref o £18,370* neu lai am grant llawn o £2,906*, rhwng £18,371* a £39,329* am grant rhannol, a thros £39,329* dim grant (ac eithrio ar gyfer rhai myfyrwyr sy'n hyfforddi i fod yn athrawon);
- Benthyciad cynhaliaeth (hyd at £4,745* os ydych chi'n byw i ffwrdd o gartref y rhieni neu hyd at £3,673* os ydych chi'n byw yng nghartref y rhieni a £6,648* os ydych chi'n byw i ffwrdd o gartref ac yn astudio yn Llundain);
- Bwrsari Cymreig prawf modd o £319* y flwyddyn i fyfyrwyr o Gymru gydag incwm cartref o hyd at £18,370*.

12. **C** Pa gymorth i fyfyrwyr fyddaf yn gymwys amdano os na fyddaf yn bodloni'r meini prawf er mwyn cael f'ystyried yn fyfyriwr sy'n cymryd blwyddyn i ffwrdd ac yn dechrau fy nghwrs yn 2010/11 yn lle 2009/10?

    A Bydd myfyrwyr "newydd" sy'n dechrau eu hastudiaethau yn 2010/11, gan gynnwys y rhai nad ydynt yn gymwys i gymryd blwyddyn i ffwrdd, yn cael hawl i lefelau cymorth wedi'u hailfodelu sy'n dibynnu ar incwm y teulu:

    - Grant Dysgu'r Cynulliad (grant cynhaliaeth) hyd at uchafswm o £5,000;
    - Bydd trothwy incwm uchaf y cartref ar gyfer Grantiau Dysgu'r Cynulliad yn rhannol yn codi i oddeutu £50,000*;
    - Dim Grant Ffioedd Dysgu (heb fod ar gael i ddechreuwyr 2010/11);
    - Benthyciad Ffioedd Dysgu estynedig o £3,225* i sicrhau nad oes unrhyw fyfyrwyr israddedig amser llawn yn gorfod talu ffioedd ymlaen llaw;
    - Bydd pob myfyriwr newydd sy'n byw yng Nghymru sy'n cymryd benthyciad cynhaliaeth o flwyddyn academaidd 2010/11 yn cael hyd at £1,500 o ryddhad dyled pan fyddant yn dechrau ad-dalu. (Darperir lefelau mynegol benthyciadau cynhaliaeth yn C12). Gallai myfyrwyr sy'n parhau sy'n cymryd benthyciad cynhaliaeth yn 2010/11 fod yn gymwys am ryddhad dyled hefyd.

13. **C** Beth sy'n digwydd os byddaf yn mynychu'r brifysgol ym mis Medi 2010 fel myfyriwr cymwys sy'n cymryd blwyddyn i ffwrdd ond yn sylweddoli y byddaf ar fy ngwell yn ariannol fel myfyriwr system newydd (2010/11)?

    A Mae angen i chi gysylltu â'ch awdurdod lleol (i gadarnhau mai dyma yw'r achos) a byddai'n rhaid i chi dynnu'ch statws blwyddyn i ffwrdd ffurfiol yn ôl ac ail-wneud cais fel myfyriwr blwyddyn 10/11.

    Dylai myfyrwyr gyfrifo'u cymorth statudol tebygol ar gyfer blwyddyn academaidd 2010/11 fel rhan o'u penderfyniad i gymryd blwyddyn i ffwrdd ai peidio.

* Sylwch fod y ffigurau a ddarperir fan hyn ar gyfer 2009/10 a gallent newid (uwchraddio) ar gyfer blwyddyn academaidd 2010/11.